



## Diwygio anghenion dysgu ychwanegol

At ei gilydd, mae darparwyr wedi cynnal cynnydd cyson tuag at roi'r diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol ar waith ac wedi croesawu llawer o agweddau ar y newidiadau i'r dull hwn.

### Beth sy'n mynd yn dda

- Yn gyffredinol, mae gan aelodau staff sy'n arwain ar ADY ddealltwriaeth dda o ofynion y diwygiadau.
- Bu cymorth ar gyfer ADY gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, o ran dysgu proffesiynol a sefydlu rolau statudol newydd, yn ddefnyddiol a chafodd ei groesawu'n fawr gan ddarparwyr.
- Mae bron pob darparwr wedi dechrau adnabod disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arbenigol arnynt a mapio darpariaeth gyffredinol i rai eraill.
- Mae bron pob darparwr wedi dechrau rhoi elfennau allweddol o ddiwygio ADY ar waith, fel arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cynlluniau datblygu unigol a phroffiliau un-dudalen.

### Beth sydd angen ei wella

- Mae dealltwriaeth aelodau staff unigol o'u cyfrifoldeb o ran cynorthwyo disgyblion ag ADY yn amrywio.
- Mae argaeledd adnoddau cyfrwng Cymraeg i gynorthwyo disgyblion ag ADY yn gyfyngedig.
- Mae ansicrwydd ynghylch didueddrwydd cyngor ac arweiniad i ddysgwyr mewn ysgolion arbennig yn y dyfodol wrth ystyried eu hopsiynau ôl-16.